**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: CL-03-16

Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cyfoeth Naturiol Cymru

23 Awst 2016

Annwyl Gydweithwyr

**CANLLAWIAU AR LWFANSAU NEWID YN YR HINSAWDD AT DDIBENION CYNLLUNIO**

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (TAN 15) yn datgan bod rhaid ystyried pa effeithiau gall newid yn yr hinsawdd gael ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd dros oes y datblygiad. Mae hyn i sicrhau nad yw'r datblygiad yn digwydd lle mae'r risg o lifogydd yn annerbyniol naill ai nawr neu yn y dyfodol, a bod datblygiadau a ganiateir yn cael eu dylunio i wrthsefyll perygl llifogydd cynyddol a achosir gan newid yn yr hinsawdd.

Ynghlwm â'r llythyr mae canllawiau sy'n nodi sut dylid ymgorffori'r cynnydd yn deillio o newid yn yr hinsawdd a ragwelir i lif brig afon a lefel y môr, i asesiadau o ganlyniadau llifogydd, ar gyfer ceisiadau cynllunio unigol ac at ddibenion blaen-gynllunio, mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.

Dylid ymgorffori'r amcanestyniadau hinsawdd hyn i asesiadau o ganlyniadau llifogydd sy'n cyd-fynd â cheisiadau am ganiatâd cynllunio o **1 Rhagfyr 2016**. Bydd y canllawiau yn cael eu diweddaru eto yn dilyn cyhoeddiad yr amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd nesaf.

Dylai ymholiadau am yr amcanestyniadau hinsawdd neu sut i'w ymgorffori o fewn asesiad o ganlyniadau llifogydd gael eu codi gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r llythyr hwn a'r canllawiau ar gael i'w gweld ar ein gwefan http://gov.wales/topics/planning/policy/policyclarificationletters/2016/cl-03-16-climate-change-allowances-for-planning-purposes/?lang=cy ac ar dudalen wê TAN 15 http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=cy

Yn gywir

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

English Enquiry Line: 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg: 0845 010 4400
Email: planning.directorate@wales.gsi.gov.uk
Ebost: planning.directorate@cymru.gsi.gov.uk